BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Blaenau Gwent
PUBLIC SERVICES BOARD

# Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus

## Ymateb gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent

### 1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau

1.1 Ers ei sefydlu mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent wedi mabwysiadu egwyddor o ddysgu a hunan-fyfyrio i gynorthwyo gyda'i ddatblygiad a'i effeithiolrwydd wrth ddeall y Ddeddf a'i goblygiadau. Roedd sesiynau datblygu cynnar yn cynnwys “Creu BGC pwrpasol” yn 2016 a helpodd i adeiladu ffyrdd cadarnhaol o weithio i'r Bwrdd.

1.2 Mae sesiynau myfyriol mwy diweddar a gefnogwyd ac a hwyluswyd gan Academi Cymru yn cynnwys:

- Ymarfer hunanasesu ar effeithiolrwydd y Bwrdd ym mis Ebrill 2019.
- Ystyried ymatebion lleol i COVID-19 ym mis Gorffennaf 2020 a'r hyn a ddatgelodd am effeithiolrwydd cadarnhaol perthnasoedd partneriaeth gan gynnwys heriau yn y dyfodol.

1.3 Amlygodd y gwaith a wnaed yn 2019 feysydd i'w datblygu gan gynnwys yr angen i symleiddio trefniadau partneriaeth, adnoddau, datblygu cynllun gwaith strategol a buddion rhannu arbenigedd. Llywiodd nifer o'r heriau a amlygwyd ddatblygiad rheolaeth perfformiad newydd ar gyfer y BGC a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2020.

1.4 Ystyriodd y sesiwn saib a myfyrio ym mis Gorffennaf 2020 yr effaith ar raglen waith strategol y BGC a dysgu o'r ymateb i'r pandemig COVID-19, yr oedd y bwrdd am barhau ag ef ac adeiladu arno.

1.5 Mae gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu wahoddiad sefydlog i'r BGC sy'n cynorthwyo gydag ymwybyddiaeth aelodau o'r BGC a'r Ddeddf a datblygu rhaglen waith symud ymlaen pwyllgor cryf ac atebolrwydd. Darparwyd sesiynau gydag aelodau etholedig ar ddeall y Ddeddf a chymhwyso'r pum ffordd o weithio i ymholiadau craffu. Cyflwynwyd sesiynau gyda staff y Cyngor ar y gwahanol lefelau ar y Ddeddf hefyd ac adolygwyd y fframwaith adrodd ar benderfyniadau i gynnwys y pum ffordd o weithio, gan gynnwys o fewn y templedi a'r arweiniad ategol.

**2. Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus i roi'r Ddeddf ar waith a pha mor effeithiol y cawsant eu defnyddio**

2.1 Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent yn cymryd agwedd gynhwysol ar draws ei aelodaeth ac mae wedi cymryd y dull o nodi noddwr ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith rhaglen strategol llesiant. Mae gweithio rhanbarthol hefyd wedi bod yn nodwedd allweddol, gyda Grŵp Gweithredu Strategol Llesiant Gwent (GSWAG) yn parhau i gyflawni gwaith allweddol ar yr ôl troed rhanbarthol e.e. Dyfodol Gwent, Mynegai Cymunedau'n Ffynnu a Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd. Mae'r defnydd rhanbarthol o gyllid LlC ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn bwysig i symud rhywfaint o waith arloesol ymlaen ac mae GSWAG wedi llwyddo i ddenu cyllid ychwanegol i gefnogi prosiectau BGC.

2.2 Yn fwy heriol roedd nodi adnoddau ariannol gan sefydliadau partner, er bod rhai enghreifftiau da o ble mae ffrydiau cyllid wedi'u cynyddu i'r eithaf e.e. gan alinio cyllid Pontio'r UE â rhaglen bwyd cynaliadwy BGC, cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cefnogi prosiectau llesiant sy'n ymwneud â defnyddio asedau naturiol i helpu llesiant corfforol a meddyliol yn y gymuned a pheilot cyllideb cyfranogol ar draws Gwent a ddatblygwyd o gyllid bwrdd iechyd.

2.3 Mae'r BGC yn ceisio darparu adnoddau ar gyfer ei raglenni gwaith llesiant gan ddefnyddio'r adnoddau presennol ar draws ei aelodaeth. Gall hyn fod yn heriol o ystyried y gofynion sefydliadol y mae pob un yn eu hwynebu mewn tirwedd sector cyhoeddus sydd wedi wynebu ei heriau adnoddau ei hun. Wedi dweud hynny, mae arweinwyr y byrddau yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i helpu i gyflawni'r cynllun llesiant ac mae nifer o'r aelodau'n chwarae eu rhan wrth lywio rhaglenni gwaith allweddol cyffrous fel Noddwyr. Mae hyn yn helpu i ledaenu'r arweinyddiaeth ac annog cydweithredu gwirioneddol. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- Y 1,000 diwrnod cyntaf - Noddwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod - Noddwr Heddlu Gwent
- Hwb Diogelwch Cymunedol - Noddwr Heddlu Gwent
- Blaenau Gwent ar Symud - Noddwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy Blaenau Gwent - Noddwr Tai Calon
- Addasu i Newid yn yr Hinsawdd - Noddwr Cyfoeth Naturiol Cymru
- Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd - Noddwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Rhwydweithiau Llesiant Integredig - Noddwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Economi Sylfaenol - Noddwr Coleg Gwent

- Cymunedau Cyfeillgar i Oedran – Noddwr Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent

2.4 Ystyriodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd effaith COVID-19 ar ei raglen waith bresennol ym mis Medi 2020 a phwysigrwydd ystwytho ei ddull o ymgysylltu ac ymglymiad i addasu i'r heriau pandemig cyfredol.

2.5 Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwerthfawrogi'n fawr y Gwaith Sganio Gorwel a wneir gan Ash Futures a Barod am yr Hinsawdd Gwent sy'n dechrau dylanwadu ar raglenni gwaith rhanbarthol a lleol. Mae'n werth nodi, gyda Blaenau Gwent, bod angen ystyried meddwl y Dyfodol ar gyfer unrhyw raglen waith newydd a gynigir i'r BGC. Ymgorfforir hyn yn nhrefniadau'r Adroddiad Cychwyn ar gyfer “cychwyn prosiect”.

**3. Cefnogaeth a ddarperir i gyrff cyhoeddus gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

3.1 Mae'r BGC wedi croesawu'r gefnogaeth a ddarperir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r tîm ehangach ers sefydlu'r Ddeddf. Mae hyn wedi cynnwys her a chefnogaeth ers ei sefydlu. Ymhlith yr enghreifftiau roedd ymateb yn gadarnhaol i adborth datblygiadol ar ei iteriad cyntaf o'r asesiad llesiant ac yn fwy diweddar canmoliaeth gan y Comisiynydd am ddull y BGC i ymgysylltu ar y cyd a chynnwys pobl yn ei “Y Blaenau Gwent a Garem”. Nodwedd arwyddocaol o'r gwaith hwn oedd gweithio'n agos gyda Phrif Gyngor Plant a Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent wrth ddatblygu a gweithredu'r cynllun llesiant ar gyfer yr ardal.

3.2 Enghraifft dda o'r nod hwn ar waith yw cyfranogiad Maer Ieuenctid Blaenau Gwent yn lansiad y cynllun Llesiant ym mis Mai 2018. Yn fwy diweddar mae'r BGC yn falch iawn bod cynrychiolwyr y Fforwm Ieuenctid a'r Fforwm 50+ wedi derbyn gwahoddiadau i ymuno â'r Grŵp Llywio Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd sy'n cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2020.

3.3 Mae'r BGC hefyd yn croesawu'r adroddiadau a'r diweddariadau rheolaidd a ddarperir gan y Comisiynydd ac yn adolygu eu cynnwys a'u hargymhellion yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Gwnaethom groesawu a defnyddio Fframwaith y Comisiynwyr ar gyfer Prosiectau a'i ddefnyddio wrth ddylunio ein fframwaith rheoli perfformiad sy'n cynnwys rheolaeth rhaglenni.

3.4 Ar adegau yn y gorffennol ac yn fwy diweddar yn ystod ein hymateb parhaus i bandemig COVID-19, mae'r gallu i ymgysylltu'n llawn ac archwilio cyfleoedd yn yr holl adroddiadau a dogfennau canllaw a rennir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyfyngedig.

## 4. Arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru

4.1 Roedd y BGC o'r farn bod canllawiau Statudol ac Anstatudol “Dyfodol a Rennir ar gyfer Pwrpas a Rennir” a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn ddefnyddiol iawn wrth ffurfio'r Bwrdd, datblygu'r asesiad llesiant a gosod cyfeiriad strategol ar gyfer y cynllun. Mae cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru ar GSWAG hefyd wedi bod yn ddefnyddiol.

## 5. Unrhyw rwystrau eraill rhag gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus e.e. Brexit, COVID ac ati.

5.1 Un o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gyflawni ei raglen llesiant ar hyn o bryd yw'r heriau y mae amgylchedd COVID-19 yn eu creu wrth ymgysylltu a chynnwys cymunedau lleol. O fewn Blaenau Gwent mae ein his-grŵp Ymgysylltu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrthi ar hyn o bryd yn archwilio sut y gallwn gyflawni'r her hon sy'n bwysig wrth ddarparu'r rhaglenni gwaith llesiant presennol ond hefyd wrth ddatblygu ein hasesiad llesiant yn ystod y flwyddyn nesaf. Rydym yn archwilio'r materion hyn yn rhanbarthol o fewn fforymau fel Grŵp Gweithredu Strategol Llesiant Gwent (GWSAG) ond rydym hefyd yn croesawu'r gweithdai a hwylusir gan y Tîm Partneriaethau Llywodraeth Leol o fewn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn darparu cyfleoedd i rannu syniadau da ac arfer da a chyfarfu ddiwethaf ar 26 Hydref 2020.

5.2. Mae grŵp cynllunio craidd Brexit y Cyngor yn cydnabod bod angen i baratoi ar gyfer diwedd cyfnod Pontio’r UE fwydo i amrywiaeth enfawr o feysydd gwaith cysylltiedig a pheidio â bod yn rhaglen arunigol. Ystyrir cyfleoedd i gysylltu effaith cyfnod Pontio’r UE â rhaglen waith strategol y BGC; er enghraifft, bydd thema effaith economaidd adferiad COVID-19 a rhaglenni Economi Sylfaenol a Phartneriaeth Bwyd Cynaliadwy BGC yn helpu i liniaru yn erbyn unrhyw effaith economaidd leol cyfnod Pontio’r UE wrth symud ymlaen.

## 6. Sut i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol

6.1 Mae BGC Blaenau Gwent yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a hyrwyddo cymhwysiad y 5 ffordd o weithio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau; gan roi pwyslais ar gynnwys, dysgu gwersi a myfyrio ar unrhyw ddysgu y byddem am ei gadw yn ei le o ymateb y pandemig i gefnogi gweithrediad y Ddeddf. Mae arweinwyr lleol yn parhau i gael eu cefnogi i gofleidio dull addasol a chreadigol, gan feithrin newid diwylliant ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

6.2 Mae'r BGC yn cydnabod yr angen i barhau i fordwyo trwy'r hyn sy'n dirwedd partneriaeth rhy gymhleth yng Nghymru ar adegau, gyda'r nod o gynyddu synergeddau ac adnoddau i'r eithaf mewn ffordd effeithiol. Ystyrir camau i fynd i'r

afael â hyn mewn cyd-destun BGC o fewn Gwent yn dilyn trafodaethau ym mhob un o'r 5 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a G10 i ystyried symud tuag at BGC Rhanbarthol yn y dyfodol.

6.3 Wrth edrych ymlaen, mae'n amlwg na ddylem danamcangyfrif y gwaith sy'n gysylltiedig â chynnal asesiad llesiant pellach yn 2021 o bosibl yn ystod cyfnod o heriau COVID parhaus. Hyd yn hyn rydym yn aneglur sut olwg fydd ar ein gallu ar y cyd erbyn gwanwyn/haf 2021 i ymateb yn gadarnhaol i'r her hon. Mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o gymorth adnoddau ychwanegol arnom i gyflawni'r gwaith hwn.